**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MD-PO-0230-24

Sam Rowlands MS
Cadeirydd Dros Dro
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru

6 Medi 2024

Annwyl Sam,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 26 Gorffennaf, yn dilyn ymddangosiad y Gweinidog Gofal Cymdeithasol gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 17 Gorffennaf i drafod Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Yn ystod sesiwn y Pwyllgor, ymrwymodd y Gweinidog i weithio gyda'r Ysgrifennydd Cabinet er mwyn darparu rhagor o wybodaeth am faterion yn ymwneud â darparu Gofal Iechyd Parhaus. Mae'r wybodaeth hon, ynghyd ag ymateb i'r cwestiwn ychwanegol a gynhwysir yn eich llythyr, wedi'i hatodi yn Atodiad A.

Yn ogystal, efallai yr hoffech wybod bod astudiaeth Delphi ar ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal wedi cael ei chyhoeddi ers sesiwn y Pwyllgor. Mae'r astudiaeth hon yn ategu adroddiadau cynharach gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd yn ogystal ag ADSS Cymru.

Rydym yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

| | |
|---|---|
| **Mark Drakeford AS/MS** | **Dawn Bowden AS/MS** |
| Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol |
| Cabinet Secretary for Health and Social Care | Minister for Social Care |

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal**

1. **O ran dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal, gwnaethom ofyn i Arolygiaeth Gofal Cymru a fydd y darpariaethau yn y Bil a'r memorandwm esboniadol sy'n ymwneud â lleoliadau atodol yn gweithredu i bob pwrpas i 'gyfreithloni' a normaleiddio lleoliadau anghofrestredig yng Nghymru ... A allwch gadarnhau eich safbwynt ... ac, yn benodol, a ydych yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil neu yn y memorandwm esboniadol.**

Mae'r Llywodraeth yn glir na fydd y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â chymeradwyo lleoliadau atodol yn gweithredu i bob pwrpas i 'gyfreithloni' na normaleiddio lleoliadau anghofrestredig. Mae'r darpariaethau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymeradwyo lleoliad gyda darparwr er elw cofrestredig sy'n darparu gofal preswyl neu ofal maeth i blant ac sy'n ddarostyngedig i'r trefniadau trosiannol ehangach a nodir yn y Bil. Ni fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi lleoliad anghofrestredig.

Mae angen ystyried y darpariaethau sy'n ymwneud â lleoliadau atodol ochr yn ochr â'r rhai sy'n ymwneud â dyletswydd ddiwygiedig awdurdodau lleol i sicrhau digon o lety a dyletswydd awdurdodau lleol i lunio a chyhoeddi cynllun digonolrwydd blynyddol. Gyda'i gilydd, mae'r darpariaethau hyn yn rhoi cyfarwyddyd cadarn i awdurdodau lleol ynghylch rhoi capasiti digonolrwydd lleoedd ar waith a defnyddio'r math cywir o ddarpariaeth a darparwr, a ddylai atal yr angen i ddefnyddio lleoliadau anghofrestredig.

Rydym yn ymwybodol bod rhywfaint o ddryswch wedi bod ynghylch y cyfeiriad at 'lety anghofrestredig' yn Nodiadau Esboniadol y Bil. Mae adran 13 o'r Bil yn nodi'r ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i'w lletya yn y "lleoliad mwyaf priodol". Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi y gall lleoliad fod "mewn llety anghofrestredig (dros dro neu mewn achosion brys)".

Y bwriad oedd cyfeirio at lety lle nad oes unrhyw ofyniad i gofrestru gan nad yw'r lleoliad gyda gofalwr maeth a chan fod y trefniadau y tu hwnt i'r diffiniad o "wasanaeth cartref gofal". Mae amrywiaeth o amgylchiadau lle y gall awdurdod lleol benderfynu lleoli plentyn mewn lleoliad heblaw gofal maeth neu wasanaeth cartref gofal i blant (cartref i blant). Yr enghraifft fwyaf cyffredin o hyn yw pan fydd awdurdod lleol yn gosod plentyn hŷn 16 neu 17 oed mewn llety â chymorth fel paratoad ar gyfer byw'n annibynnol.

Mae defnydd mwy diweddar o'r termau "llety anghofrestredig" a "llety heb ei reoleiddio" wedi tueddu i wahaniaethu rhwng y ddau beth. Mae'r term *llety anghofrestredig* yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at drefniadau sy'n dod o fewn cwmpas gweithgarwch lle mae gofyniad i gofrestru ond lle nad yw'r darparwr wedi'i gofrestru mewn gwirionedd ac mae *llety heb ei reoleiddio* yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at drefniadau sy'n disgyn y tu allan i gwmpas gweithgarwch a reoleiddir ac felly lle nad oes angen cofrestru. Nid y cyntaf yw ystyr "anghofrestredig" yn y Nodiadau Esboniadol.

Yn sgil y pwyntiau a godwyd, rydym yn cynnig gwneud newid i'r Nodiadau Esboniadol ynghylch hyn ar ddiwedd Cyfnod 2, er mwyn dileu'r cyfeiriad at lety 'anghofrestredig', a darparu geiriad amgen a fydd yn gliriach i ddarllenwyr lleyg a fydd yn cyfeirio at y Nodiadau Esboniadol yn y dyfodol.

**Gofal iechyd parhaus**

2. **O ran materion gofal iechyd parhaus, gwnaethoch ymrwymo i ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed gyda'r adolygiad o'r Fframwaith presennol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus. Fel rhan o hyn, hoffem wybod a oes lle i'r adolygiad hwn gael ei ddwyn ymlaen, ac a oes mantais mewn gwneud hyn fel y gall unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r system bresennol ddigwydd wrth i'r taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus gael eu cyflwyno.**

Cyhoeddwyd y Fframwaith presennol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus yn 2021 a daeth yn weithredol ar 1 Ebrill 2022. Disodlodd y Fframwaith hwn y cyhoeddiad blaenorol o 2014. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i adolygu'r Fframwaith o fewn pum mlynedd i'w weithredu, felly dylai Fframwaith newydd fod wedi'i lunio ac yn weithredol erbyn mis Ebrill 2027.

Yn sgil cyflwyno Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) a'i ddarpariaethau i alluogi cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG, byddai'n amserol ystyried amserlen ddeddfwriaethol y Bil ochr yn ochr â'r adolygiad o'r Fframwaith ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus. Byddai hyn yn galluogi gwybodaeth berthnasol ynghylch y taliadau uniongyrchol sydd newydd eu sefydlu ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus i gael ei chynnwys yn nogfen y Fframwaith diwygiedig. O ystyried amserlen bresennol y Bil, y gobaith yw y gallai'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol tua diwedd gwanwyn 2025. Yna, bydd Rheoliadau a Chanllawiau yn cael eu llunio yn ystod 2025-26 a'r nod yw y byddai rhai taliadau uniongyrchol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus yn dechrau yn ystod 2026. Felly, byddai'r amserlen hon yn cyd-fynd yn daclus â'r adolygiad o'r Fframwaith ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus.

Byddai ymarfer ymgynghori allanol llawn yn cael ei gynnal ar gyfer yr adolygiad o'r Fframwaith, gan gynnwys partneriaid allweddol a rhanddeiliaid eraill, a byddai'r holl ymatebion yn cael eu hystyried cyn cyhoeddi Fframwaith diwygiedig.

Byddai'r Cyd-fforwm Gofal Cymhleth, a ffurfiwyd yn 2023, hefyd yn allweddol o ran trafod newidiadau i'r Fframwaith ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus, gan ei fod yn cynnwys cydweithwyr polisi o Lywodraeth Cymru a chynrychiolwyr awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Mae'r grŵp yn helpu i weithredu'r Fframwaith, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhyngwyneb rhwng gofal cymdeithasol a gofal iechyd, ac ar weithio mewn partneriaeth rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Nod y grŵp yw cydweithio er mwyn rhannu gwybodaeth a gweithio ar draws sefydliadau.

Byddai'r partneriaid a'r rhanddeiliaid allweddol hyn hefyd yn rhan fawr o'r broses o gyflwyno'r system taliadau uniongyrchol newydd. Rwy'n ymwybodol y bydd partneriaid allanol allweddol o'r fath yn rhan o'r ddwy agwedd ac, felly, mae angen inni sicrhau nad ydym yn eu gorlwytho â gwaith ychwanegol tra mae newid mor sylweddol yn cael ei weithredu.

3. **Hefyd o ran gofal iechyd parhaus, clywsom gan gynrychiolwyr byrddau iechyd nad oes fframwaith perfformiad ar gyfer gofal iechyd parhaus ar hyn o bryd, gan ei fod yn y broses o gael ei ddiwygio. Gwnaethant ddweud bod y fframwaith hwn yn hollbwysig, ac y dylai gynnwys metrigau i gael ciplun o gynnydd a llwyddiant a'u mesur. Gwnaethoch gytuno i ofyn i'r Ysgrifennydd Cabinet roi inni'r wybodaeth ddiweddaraf am waith yn y maes hwn, gan gynnwys manylion ynghylch pryd y bydd y fframwaith diwygiedig yn cael ei roi ar waith.**

Mae Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus 2021 yn cyfeirio at Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol, yn rhan o'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus yng Nghymru.

Yn ystod y pandemig, cytunwyd na fyddai'n ofynnol i fyrddau iechyd gwblhau ffurflenni mewn perthynas â Fframwaith Perfformiad Gofal Iechyd Parhaus, oherwydd y pwysau yn y cyfnod hwnnw.

Yna, cynhaliwyd trafodaethau ag Arweinwyr Gofal Iechyd Parhaus y byrddau iechyd ynghylch y posibilrwydd o ailsefydlu'r Fframwaith Perfformiad. Cytunwyd bod angen ei fireinio er mwyn iddo fod yn ymarfer ystyrlon i'r byrddau iechyd ac er mwyn i'r wybodaeth a gesglir fod o fudd i Lywodraeth Cymru.

Yn ystod y cyfnod hwn, daeth yn amlwg nad yw pob bwrdd iechyd yn casglu gwybodaeth gan ddefnyddio'r un categorïau neu ddangosyddion. Roedd yn anodd felly cymharu'r wybodaeth a oedd yn dod i law gan y gwahanol fyrddau iechyd.

Ym mis Tachwedd 2023, ysgrifennodd Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru, at Brif Weithredwyr pob bwrdd iechyd yn eu hysbysu am waith y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd a oedd newydd ei sefydlu. Roedd iddo bum ffrwd waith, gan gynnwys ffrwd waith Gofal Iechyd Parhaus.

Mae Shane Mills, Cyfarwyddwr Clinigol, yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Cenedlaethol, ynghyd â grŵp cenedlaethol, wedi ymgymryd â darn o waith â therfyn amser i adolygu lleoliadau cleifion cost uchel, i nodi cyfleoedd i leihau'r gost gan sicrhau, ar yr un pryd, fod ansawdd a chanlyniadau yn cael eu diogelu. Mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo ac mae'n cael ei wneud ar y cyd â chynrychiolwyr o bob bwrdd iechyd.

Mae'r grŵp wedi nodi y byddai'n well i'r datrysiadau sydd eu hangen i wireddu'r cyfleoedd hyn gael eu gweithredu ledled Cymru. Mae'r camau nesaf wedi cynnwys y cynnig i hwyluso'r defnydd o system adrodd safonol ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru, gan o bosibl ddefnyddio un platfform meddalwedd i gasglu data perfformiad, yn hytrach na'r platfformau a'r systemau gwahanol a ddefnyddir ar hyn o bryd. Mae'r cynnig hwn yn dal i gael ei ystyried ar hyn o bryd, ac mae unrhyw benderfyniad a wneir ynghylch hyn yn amlwg yn berthnasol i unrhyw gynnig i greu Fframwaith Perfformiad Gofal Iechyd Parhaus wedi'i ddiweddaru.

Gan fod Fframwaith Perfformiad Gofal Iechyd Parhaus wedi'i godi gan gynrychiolwyr byrddau iechyd yn rhan o'u trafodaethau â'r Pwyllgor, bydd fy swyddogion yn ailedrych ar y maes hwn, gan gynnwys gweithio gyda'r is-grŵp Gwerth a Chynaliadwyedd i sefydlu'r ffordd orau ymlaen i greu dull integredig o gasglu data ledled Cymru. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i gwmpasu a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer fframwaith perfformiad newydd dros fisoedd yr hydref a'r gaeaf.